

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Dyddiad Cyhoeddi: Gorffennaf 2018

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

STATWS: GWYBODAETH/GWEITHREDU

CATEGORI: LLYTHYR GWEITHWYR IECHYD PROFFESIYNOL

Teitl: Cynllun Archwilio Clinigol Cenedlaethol ac Adolygu Canlyniadau GIG Cymru
Rhaglen Dreigl Flynyddol 2018/19

Dyddiad Adolygu: Ebrill 2019

I'w weithredu gan:

Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG
Arweinwyr Clinigol Cenedlaethol
Pwyllgor Cyngori ar Archwilio Clinigol
Cenedlaethol ac Adolygu Canlyniadau.

Er gwybodaeth:

Prif Weithredwyr
Cyfarwyddwyr Meddygol
Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol

Camau i'w cymryd gan: AMHERTHNASOL

Anfonwyd gan: Dr Frank Atherton, y Prif Swyddog Meddygol

Enw(au) Cyswilt yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:

*Is-adran Iechyd Poblogaethau, Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, Parc
Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ. E-bost: PopulationHealthcare@llyw.cymru*

Dogfen(nau) amgaeedig: Cynllun Archwilio Clinigol Cenedlaethol ac Adolygu Canlyniadau GIG Cymru:
Rhaglen Dreigl Flynyddol 2018/19



Dr Frank Atherton
Y Prif Swyddog Meddygol/Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru
Chief Medical Officer/Medical Director NHS Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Annwyl Gydwethwyr,

Mae gofyn i fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd Cymru gyfranogi'n llawn yn yr archwiliadau clinigol cenedlaethol ac adolygiadau canlyniadau a restrir yn y Cynllun Archwilio Clinigol Cenedlaethol ac Adolygu Canlyniadau. Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu copi o'r Cynllun Archwilio Clinigol Cenedlaethol ac Adolygu Canlyniadau ar gyfer 2018/19, a fydd hefyd ar gael drwy wefan Llywodraeth Cymru.

Mae archwiliadau clinigol cenedlaethol yn ffynhonnell wybodaeth bwysig â'r nod o fesur a meincnodi gwelliannau i wasanaethau gofal iechyd Cymru. Defnyddir data'r archwiliadau i asesu ansawdd ac effeithiolrwydd y gofal iechyd sy'n cael ei ddarparu gan fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd, ac o gyfuno hynny â champau gwella priodol gall wneud gwahaniaeth enfawr i'r ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau. Mae'n hanfodol i bob rhan o GIG Cymru gyfranogi'n llawn yn y rhaglen genedlaethol.

Mae'r Cynllun yn rhoi manylion am rôl pob un ohonom wrth symud ymlaen â'r gwaith hwn, ac yn cynnwys rhestr o'r Archwiliadau Clinigol Cenedlaethol ac Adolygiadau Canlyniadau y mae'n **rhaid** i sefydliadau gofal iechyd gyfranogi'n llawn ynddynt wrth ddarparu gwasanaeth.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y cynllun blynyddol, cysylltwch â: wgclinicalaudit@llyw.cymru.

Yn gywir

DR FRANK ATHERTON

Cynllun Archwilio Clinigol Cenedlaethol ac Adolygu Canlyniadau GIG Cymru

Rhaglen Dreigl Flynyddol 2018/19

Gorffennaf 2018

Dyma'r 7^{fed} Cynllun Archwilio Clinigol Cenedlaethol ac Adolygu Canlyniadau sy'n cadarnhau'r rhestr o Archwiliadau Clinigol Cenedlaethol ac Adolygiadau o Ganlyniadau y disgwylir i'r holl fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd gymryd rhan ynddynt yn 2018-19 (os ydynt yn darparu'r gwasanaeth). Mae'r Cynllun hefyd yn cadarnhau sut y caiff casgliadau'r archwiliadau a'r adolygiadau eu defnyddio i asesu ac i fwrw ymlaen â'r gwaith o wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru.

Yn unol â'r adroddiadau blaenorol, er cysondeb, gwnaed cyn lleied o newidiadau â phosibl i'r rhestr o archwiliadau ac adolygiadau, ond mae rhai archwiliadau wedi dod i ben yn awr.

1. Beth rydym am ei gyflawni?

Mae angen i GIG Cymru fod yn sefydliad sy'n dysgu ac sy'n ymdrechu'n rheolaidd i fesur ansawdd ei wasanaethau yn ôl safonau sy'n gwella'n gyson ac sydd hefyd yn cymharu ei wasanaethau â systemau gofal iechyd ar hyd a lled y DU, Ewrop a gweddill y byd. Dylid defnyddio'r mesur hwn i bennu blaenoriaethau gwella a chaiff ei gydnabod mai'r fethodoleg safonedig ar gyfer gwella a ddefnyddir gan raglen 1000 o Fywydau a Mwy yw'r fethodoleg y dylid ei defnyddio i fwrw ymlaen â'r gwaith yn GIG Cymru hefyd.

Mae Llywodraeth Cymru a GIG Cymru wedi ymrwymo i egwyddorion gofal iechyd darbodus er mwyn helpu i ymdopi â heriau costau cynyddol a galw cynyddol, gan hefyd wella ansawdd y gofal. Mae cymryd rhan yn y rhaglen archwilio clinigol genedlaethol yn gwbl gydnaws ag egwyddorion gofal iechyd darbodus. Mae'n dangos yn glir yr ymrwymiad i ddefnyddio'r holl sgiliau a'r adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl ac i leihau'r gwahaniaeth yn ansawdd y gwasanaethau, gan ddefnyddio arferion sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth, a hynny'n gyson ac yn dryloyw.

Mae archwiliadau clinigol yn rhan annatod o'r broses o wella gwasanaethau ac y mae wedi'i wreiddio yn safonau gofal iechyd Cymru. Mae'r gofyniad i gymryd rhan mewn archwiliadau a dysgu oddi wrthynt hefyd yn elfen ganolog o'r gyfres o Gynlluniau Cyflenwi a ddatblygwyd ar gyfer GIG Cymru, fel y Cynllun Cyflenwi Strôc, Cynllun Cyflenwi Diabetes, Cynllun Cyflenwi Clefyd y Galon ac ati.

2. Beth yw rôl y Pwyllgor Cynghori ar Archwilio Clinigol Cenedlaethol ac Adolygu Canlyniadau?

I roi mwy o bwyslais ar flaenoriaethau Cymru, mae Pwyllgor Cynghori ar Archwilio Clinigol Cenedlaethol ac Adolygu Canlyniadau (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel y Pwyllgor Cynghori) yn bodoli er mwyn:

- Cynnig arweiniad cenedlaethol a chefnogaeth broffesiynol i GIG Cymru gymryd rhan mewn rhaglen dreigl flynyddol o archwiliadau ac adolygiadau.
- Sicrhau bod archwiliadau, adolygiadau a chofrestrfeydd cenedlaethol yn berthnasol i Gymru ac yn darparu data clir i Gymru, pan fo hynny'n briodol.
- Sicrhau'r budd mwyaf bosibl drwy ledaenu dysgu.
- Annog camau i wella ansawdd y gwasanaethau a diogelwch y claf drwy ddefnyddio'r fethodoleg safonedig a ddefnyddir gan raglen 1000 o Fwydau a Mwy i wella'r meysydd a gaiff eu blaenoriaethu gan yr archwiliad.
- Argymhell rhaglen sylfaenol o archwiliadau clinigol cenedlaethol ac adolygiadau o ganlyniadau y mae'n rhaid i'r holl fyrddau a'r ymddiriedolaethau iechyd gymryd rhan ynddynt. Caiff y rhaglen hon ei hadolygu bob blwyddyn, ac mae'n bosibl yr ychwanegir ati yn ystod y flwyddyn os yw'r Pwyllgor o'r farn y dylai Cymru fod yn rhan o unrhyw archwiliadau cenedlaethol newydd a gaiff eu datblygu.
- Cydweithio â'r Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd mewn perthynas â gofynion GIG Cymru.

Bydd y Pwyllgor Cynghori yn asesu'r archwiliadau arfaethedig newydd drwy ddefnyddio'r meini prawf a ganlyn. Rhaid i'r cynigion:

- Ymwneud â'r holl ddarparwyr yn y genedl gyfan (p'un ai dyma'r bwriad neu'r canlyniad)
- Canolbwyntio'n bennaf ar wella ansawdd arferion clinigol
- Cymharu darparwyr ar lefel sefydliad, ysbyty neu uned
- Gwerthuso ymarfer yn erbyn meini prawf/canllawiau a/neu casglu data ar ganlyniadau
- Cyhoeddi adroddiadau am y canfyddiadau yn rheolaidd (i'r cyhoedd)
- Ymwneud â'r cylch archwilio llawn a/neu fonitro data canlyniadau clinigol / cleifion yn barhaus fel rhan o raglen i ysgogi newidiadau
- Edrych ymlaen - hynny yw peidio cynnwys adolygiadau ôl-weithredol o ganlyniadau anffafriol fel ymchwiliadau cyfrinachol

- Casglu data ar gleifion unigol a chynnwys cleifion yn eu llywodraethiant - recriwtio data gan gleifion yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol.

Mae rhaglen archwiliadau gytunedig GIG Cymru yn cynnwys y rhan fwyaf o archwiliadau a gefnogir ar hyd o bryd gan y Rhaglen Archwiliadau Clinigol a Chanlyniadau Cleifion Cenedlaethol a reolir gan y Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd (HQIP), ond gall hefyd gynnwys nifer o archwiliadau cenedlaethol neu amlsefydliadol sydd, yn ôl y Pwyllgor Cynghori, yn hanfodol.

HQIP sy'n comisiynu'r Rhaglen Adolygu Canlyniadau Clinigol (Ymholiadau Cyfrinachol gynt) ar ran Llywodraeth Cymru, GIG Lloegr, NHSSPS Gogledd Iwerddon, ISD yr Alban, a llywodraethau Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw. Cynlluniwyd y rhaglen i helpu i asesu ansawdd gofal iechyd ac i ysgogi gwelliannau ym maes diogelwch ac effeithiolrwydd drwy fynd ati'n systematig i alluogi clinigwyr, rheolwyr a'r rhai sy'n gwneud polisiau i ddysgu oddi wrth ddiwyddiadau andwyol a data perthnasol eraill.

Caiff y rhestr o archwiliadau ac adolygiadau ei chyhoeddi bob blwyddyn. Mae'r rhaglen ar gyfer 2018-19 i'w gweld yn Atodiad A.

Dyma restr o holl aelodau'r Pwyllgor Cynghori:

1. Dr Jacinta Abraham, Cyfarwyddwr Meddygol, Ymddiriedolaeth GIG Felindre, Cadeirydd
2. Yr Athro Chris Jones, y Dirprwy Brif Swyddog Meddygol, Llywodraeth Cymru
3. Jane Ingham, Prif Weithredwr y Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd
4. Jenny Thomas, Cyfarwyddwr Meddygol, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru
5. Rhidian Hurle, Cyfarwyddwr Meddygol, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru
6. Arlene Shenkerov, Cadeirydd, Cymdeithas Archwilio Clinigol ac Effeithiolrwydd
7. Yr Athro John Watkins, Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru
8. Gill George, Uned Gyflawni y GIG
9. Heather Payne, Uwch Swyddog Meddygol, Iechyd Mamau a Phlant, Llywodraeth Cymru
10. Anne Biffin, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
11. Kate Hooton, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cleifion, Ansawdd a Diogelwch, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
12. Adrian Thomas, Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
13. Alexandra Scott, Rheolwr Sicrhau Ansawdd a Diogelwch Cleifion, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
14. Ceri Brown, Anesthetydd Ymgynghorol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
15. Howard Cooper, Pennaeth Llywodraethu Clinigol Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
16. Olivia Shorrocks, Pennaeth Cyflyrau Difrifol, Llywodraeth Cymru

17. Chris Connell, NICE
18. Gareth Hewitt, Pennaeth Iechyd Pobl Hŷn a Rheoli Cyflyrau Cronig, Llywodraeth Cymru
19. David Thomas, Cynrychiolydd Deintyddol Deoniaeth Cymru
20. Cynrychiolydd Gwasanaeth Gwella 1000 o Fywydau
21. Andrew Havers, Cynrychiolydd Gofal Sylfaenol, Llywodraeth Cymru
22. Liz Smith, Arweinydd Ansawdd, Iechyd Cyhoeddus Cymru

3. Sut y caiff sefydliadau drwy Gymru eu hannog i gymryd rhan, i ddysgu ac i weithredu ar y casgliadau?

Dyma sut y gwneir hyn:

Gwella dulliau o gyfathrebu ac annog sefydliadau i gymryd rhan mewn archwiliadau:

- Cyhoeddi e-fwletin Archwilio Clinigol Cenedlaethol ac Adolygu Canlyniadau yn rheolaidd i dynnu sylw at ddatblygiadau a chasgliadau adroddiadau diweddar.
- Adrodd yn ôl i sefydliadau ar berfformiad cymharol darparwyr unigol mewn archwiliadau ac adolygiadau, fel ag y bo'n briodol, er mwyn iddynt eu hystyried a gweithredu arnynt.
- Codi proffil archwiliadau clinigol ymhlith byrddau, grwpiau o gleifion, clinigwyr a'r holl staff sy'n gweithio yn y GIG. Hyrwyddo digwyddiadau cenedlaethol ac ymweliadau sefydliadol a chysylltu â chyrrff proffesiynol yng Nghymru i'w hannog i gynnal archwiliadau yn eu disgyblaethau a'u harbenigedd.
- Gweithio mewn partneriaethau agosach â thimau archwilio clinigol y byrddau / ymddiriedolaethau iechyd i wella gwybodaeth a dealltwriaeth o weithgareddau archwilio / adolygu lleol.
- Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill ym maes gofal iechyd e.e. Iechyd Cyhoeddus Cymru, y Gwasanaeth Gwybodaeth Genedlaethol i hyrwyddo diwylliant o gymryd rhan mewn archwiliadau a gweithredu ar gasgliadau.

Nodi'r meysydd y mae angen eu gwella drwy weithredu ar lefel genedlaethol:

- Adolygu problemau sy'n codi o archwiliadau ac adolygiadau ac sy'n gyffredin i holl ddarparwyr gofal iechyd Cymru, a rhannu'r atebion.
- Datblygu cysylltiadau agosach â rhaglen 1000 o Fywydau a Mwy.
- Sicrhau bod grwpiau gweithredu Cynlluniau Cyflenwi yn ystyried casgliadau ac argymhellion archwiliadau perthnasol.
- Gweithio mewn partneriaeth, drwy'r HQIP a thimau prosiect archwilio, i sicrhau bod casgliadau ac atebion yn cael eu nodi ar

gyfer Cymru yn benodol, a datblygu a threfnu gweithdai a digwyddiadau i'w rhannu.

Ymdrin â gwasanaethau clinigol os yw perfformiad yn peri pryder:

- Nodi perfformiad cymharol darparwyr unigol a deall y rhesymau dros unrhyw wahaniaethau.
- Sicrhau bod materion yn cael eu hystyried yn rheolaidd mewn cyfarfodydd adolygu perfformiad gan y byrddau/ymddiriedolaeth iechyd ac Uned Perfformiad a Chyflenwi Llywodraeth Cymru.
- Datblygu a chyhoeddi protocol yn cadarnhau'r trefniadau i nodi ac ymdrin â'r sefydliadau a nodir yn 'Allanolion' yn yr archwiliadau a'r adolygiadau, gan gynnwys gweithgareddau a gynlluniwyd i wella ansawdd gwasanaethau.

Tryloywder cynyddol:

- Ceisio gwella'r ffordd y caiff cleifion, y cyhoedd ar holl staff y GIG wybod am gasgliadau ac argymhellion archwiliadau ac adolygiadau, a'r camau y mae angen i'w cymryd i wella.

4. Beth yw rôl Llywodraeth Cymru?

Mewn partneriaeth â GIG Lloegr a HQIP, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi ac yn talu'r costau y mae GIG Cymru yn eu hysgwyddo wrth gymryd rhan yn y Cynllun Archwilio Clinigol Cenedlaethol ac Adolygu Canlyniadau. Drwy wella dulliau cyfathrebu, arweinyddiaeth ac adborth ac adeiladu ar y cyngor a geir gan y Pwyllgor Cyngori, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ceisio annog rhagor i gymryd rhan a dysgu oddi wrth archwiliadau ac adolygiadau clinigol a gwella gwasanaethau a chanlyniadau cleifion a darparu gofal mwy diogel i gleifion.

Gan gofio'r cyfyngiadau ariannol parhaus bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda GIG Lloegr a HQIP i adolygu'r rhaglen bresennol yn systematig yn y gobaith o leihau costau lle bynnag y bo'n bosibl.

5. Beth yw cyfrifoldebau byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd Cymru?

Dylai byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd Cymru ddarparu'r adnoddau i alluogi eu staff i gymryd rhan yn yr holl archwiliadau, adolygiadau a chofrestrfeydd cenedlaethol a gaiff eu cynnwys yn y cynllun blynyddol (os ydynt yn darparu'r gwasanaeth). Dylent sicrhau eu bod yn cwblhau'r cylch archwilio llawn a bod casgliadau ac argymhellion yr archwiliad yn cysylltu'n

uniongyrchol â'r rhaglen gwella ansawdd ac yn arwain at ofal a chanlyniadau gwell i gleifion.

I sicrhau eu bod yn gwneud y gorau o'r rhaglen archwilio clinigol, dylai byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd:

- Sicrhau bod yr adnoddau a'r strwythurau llywodraethu a threfnu angenrheidiol ar waith i'w helpu i gymryd rhan lawn yn yr archwiliadau, yr adolygiadau a'r cofrestrfeydd cenedlaethol a gaiff eu cynnwys yn y Cynllun blynyddol.
- Penodi arweinydd clinigol i weithredu fel hyrwyddwr a man cyswllt ar gyfer pob Archwiliad Clinigol Cenedlaethol ac Adolygiad o Ganlyniadau y mae'r bwrdd iechyd yn cymryd rhan ynddo. Dylai byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd hefyd annog arweinwyr clinigol i gynrychioli Cymru ar grwpiau llywio pan fo angen.
- Sicrhau bod proses gydnabyddedig ffurfiol ar waith i adolygu perfformiad y sefydliadau ar ôl cyhoeddi adroddiadau. Dylai'r adolygiad hwn ystyried gwelliannau (yn yr arfaeth neu wedi'u cwblhau) a chynnwys proses uwchgyfeirio i sicrhau bod y bwrdd gweithredu'n cael gwybod am unrhyw broblemau'n ymwneud â chymryd rhan mewn archwiliadau, gwella a risgiau'n gysylltiedig ag argymhellion.
- Cwblhau'r ffurflen sicrwydd a ddatblygwyd ac a gytunwyd gan Bwyllgor Cynghori Archwilio Clinigol Cenedlaethol ac Adolygu Canlyniadau, y dylid ei defnyddio i ddarparu sicrwydd mewnol ac allanol o'r camau sy'n cael eu cymryd i roi sylw i ganfyddiadau adroddiad yr archwiliad. Dylai'r ffurflen sicrwydd gael ei chwblhau o fewn pedair wythnos i gyhoeddi adroddiad yr archwiliad, a'i diweddarau'n rheolaidd.
- Sicrhau bod dulliau cyfathrebu clir ar waith i'r bwrdd fedru ystyried casgliadau'r archwiliad neu'r adolygiad ac, os oes angen, y newidiadau sydd eu hangen i wella ansawdd a diogelwch y gwasanaethau.
- Ei gwneud yn haws defnyddio data archwiliadau a chofrestrfeydd cenedlaethol fel gwybodaeth ategol mewn prosesau ail-ddilysu meddygol ac adolygiadau gan gymheiriaid.
- Sicrhau bod unrhyw wersi a ddysgir o ganlyniad i archwiliadau ac adolygiadau'n cael eu rhannu drwy'r sefydliad a bod y staff a'r cleifion yn cael gwybod amdanynt.

6. Sut y byddwn yn mesur llwyddiant?

Bydd ffurflen sicrwydd yn cael ei dosbarthu i bob bwrdd/ymddiriedolaeth iechyd ar ôl cyhoeddi adroddiad archwilio terfynol. Mae dwy ran i'r ffurflen sicrwydd;

- Rhan A sy'n gofyn i'r bwrdd/ymddiriedolaeth iechyd nodi manau lle mae angen gwelliannau. Mae'r rhan hon hefyd yn gofyn i'r bwrdd/ymddiriedolaeth iechyd nodi manau penodol lle mae'r archwiliad yn cydnabod eu bod yn gwneud yn arbennig o dda.

- Rhan B sy'n cynnwys manylion y camau y mae'r bwrdd/ymdiriedolaeth eisoes yn eu cymryd, neu yn mynd i gymryd, i roi sylw i ganfyddiadau'r adroddiad archwilio a nodwyd yn Rhan A.

Ystyrir adroddiadau archwiliadau o'r naill flwyddyn i'r llall a'u cymharu â pherfformiad systemau gofal iechyd ar hyd a lled y DU, Ewrop a gweddill y byd i benderfynu ba raddau rydym yn cydymffurfio ag arfer da ac yn sicrhau canlyniadau gofal iechyd ac yn cymharu â meincnodau cenedlaethol a rhyngwladol.

Defnyddir y meini prawf allweddol a ganlyn hefyd i fesur llwyddiant:

- Pob un o'r byrddau ac ymdiriedolaethau iechyd (pan fo'n berthnasol) yn cyfranogi'n llawn yn y rhaglen o Archwiliadau Clinigol Cenedlaethol ac Adolygiadau o Ganlyniadau, gan gadarnhau achosion ar lefel briodol a chyflwyno setiau data cyflawn.
- Llai o amrywiad rhwng gwasanaethau lleol a pherfformiad yn gwella'n fesuradwy o'r naill flwyddyn i'r llall gan ymgyrraedd at y safonau uchaf. Sefydliadau'n gwneud yn well na'r 'cyfartaledd' neu'n cael eu gosod yn y chwarter uchaf ym mhob archwiliad ac yn cynnal y safon honno.
- Ansawdd gwasanaethau, diogelwch a phrofiad cleifion yn gwella drwy ddysgu gwersi a chymryd camau'n seiliedig ar gasgliadau adroddiadau Archwiliadau Clinigol Cenedlaethol ac Adolygiadau o Ganlyniadau.

7. Sut y byddwn yn cynnal llwyddiant?

Un peth yw llwyddo, peth arall yw cynnal y llwyddiant hwnnw. Mantais cynnal archwiliadau a gwella ansawdd yw mai'r rhai sydd yn y sefyllfa orau i gyflwyno newidiadau ac y disgwylir iddynt gynnal unrhyw newidiadau sy'n cymryd rhan ynddynt. Profwyd bod y dull hwn o gyflwyno a chynnal gwelliannau mewn gwasanaethau'n gweithio, a hynny ar gyfer problemau amrywiol ac mewn lleoliadau amrywiol. Os oes disgwyl i sefydliad gyflwyno newidiadau a pharhau i wella gofal a chanlyniadau, drwy gynnal archwiliadau a gwella ansawdd y dylid gwneud hynny fel arfer.

8. Casgliad

Casgliadau ac argymhellion archwiliadau clinigol cenedlaethol, adolygiadau o ganlyniadau a phob math arall o adolygiadau ac asesiadau fydd un o'r prif ddulliau o asesu ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir gan fyrddau ac ymdiriedolaethau iechyd Cymru.

Yn unol â'n huchelgais i ddatblygu gwasanaeth gofal iechyd sy'n cael ei ystyried gyda'r gorau yn y byd, ac i fwrw ymlaen â gwelliannau, defnyddir y broses archwilio clinigol hefyd i asesu gwasanaethau gofal iechyd Cymru gan eu cymharu â gwasanaethau tebyg mewn gwledydd eraill ar hyd y lled y DU, Ewrop a gweddill y byd.

Atodiad A

Rhaglen Flynyddol 2018 - 19 o'r Archwiliadau Clinigol a'r Adolygiadau o Ganlyniadau Cenedlaethol y mae'n rhaid i holl fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd Cymru gymryd rhan ynddynt (os ydynt yn darparu'r gwasanaethau)

Acíwt	Hafan gwefan yr archwiliad	Prif gyswllt	Yn casglu data yn 2018/19
Cydgofrestrfa Genedlaethol *	www.njrcentre.org.uk	Elaine Young elaine.young@hqip.org.uk	Ydi (C, LI a Gog I)
Archwiliad Cenedlaethol Laparotomi Brys *	www.nela.org.uk	Jose Lourtie jlourtie@rcoa.ac.uk	Ydi (C a LI)
Archwilio Rhaglen Gweithgareddau (CMP)	www.icnarc.org	Bernadette Light cmp@icnarc.org	Ydi (C, LI a Gog I)
Archwilio Trawma mawr #	https://www.tarn.ac.uk/	Antoinette Edwards antoinette.edwards@manchester.ac.uk	Ydi (C, LI a Gog I)
Archwiliad Offthalmoleg Cenedlaethol (Llawdriniaeth cataractau oedolion) *	https://www.nodaudit.org.uk/	Beth Barnes noa.project@rcophth.ac.uk	Ydi (C a LI)

Cyflyrau hirdymor	Hafan gwefan yr archwiliad	Prif gyswllt	Yn casglu data yn 2018/19
Archwiliad Diabetes Cenedlaethol *	Cyffredinol: https://digital.nhs.uk		(C a LI)
Sylwer bod hyn yn cynnwys pedwar archwiliad:			
• Archwiliad Diabetes Cenedlaethol - Gofal Traed	Gofal traed: http://content.digital.nhs.uk/footcare	Gofal traed Julie Michalowski ndfa@nhs.net	Ydi
• Archwiliad Diabetes Cenedlaethol -	NaDia: http://content.digital.nhs.uk/diabetesinpatientaudit	Cleifion preswyl Sharon Thandi nadia@nhs.net	Ydi

<p>Cleifion Preswyl (NaDia) - adrodd data ar wasanaethau yng Nghymru a Lloegr</p> <ul style="list-style-type: none"> • Archwiliad Cenedlaethol Diabetes mewn Beichiogrwydd • Archwiliad Cenedlaethol Craidd Diabetes 	<p>Beichiogrwydd: http://content.digital.nhs.uk/npid</p> <p>Craidd: http://content.digital.nhs.uk/nda</p>	<p>Diabetes mewn Beichiogrwydd Cher Cartwright npid@nhs.net</p> <p>Diabetes Craidd Cher Cartwright diabetes@nhs.net</p>	<p>Ydi</p> <p>Ydi</p>
<p>Archwiliad Cenedlaethol Diabetes Pediatrig (NPDA) * #</p>	<p>www.rcpch.ac.uk/npda</p>	<p>Holly Robinson npda@rcpch.ac.uk holly.robinson@rcpch.ac.uk</p> <p>Yr Athro Justin Warner, Arweinydd clinigol yr Archwiliad a chynrychiolydd Cymru ar y grŵp llywio justin.warner@wales.nhs.uk</p>	<p>Ydi (C a LI)</p>
<p>Cofrestr Clefyd Llid y Coluddyn *</p>	<p>http://ibdregistry.org.uk/</p>	<p>support@ibdregistry.org.uk</p>	<p>Ydi (C a LI)</p>
<p>Rhaglen Archwilio Genedlaethol Asthma a COPD (NACAP)* #</p>	<p>https://www.rcplondon.ac.uk/projects/national-copd-audit-programme</p>	<p>Viktoria McMillan Juliana Holzauer-Barrie copd@rcplondon.ac.uk viktoria.mcmillan@rcplondon.ac.uk</p> <p>Patrick Flood-Page - cynrychiolydd Cymru ar y grŵp llywio patrick.floodpage@Wales.nhs.uk</p>	<p>Ydi (C a LI)</p>
<p>Y Gofrestrfa Arennau * (Therapi amnewid arenol) #</p>	<p>https://www.renalreg.org/</p>	<p>renalregistry@renalregistry.nhs.uk Hilary Doxford Hilary.Doxford@renalregistry.nhs.uk</p>	<p>Ydi (C, LI a Gog I)</p>
<p>Archwiliad Cenedlaethol Arthritis</p>	<p>https://www.rheumatology.org.uk/Knowledge/Exce</p>	<p>audit@rheumatology.org.uk</p>	<p>Ydi (C a LI)</p>

Llidiol Cynnar * #	llence/Audits		
Archwiliad Awdioleg Cymru #		john.day@wales.nhs.uk	Ydi (Cymru yn unig)

Pobl Hŷn	Hafan gwefan yr archwiliad	Prif gyswilt	Yn casglu data yn 2018/19
Archwiliad Strôc (SSNAP) *	www.strokeaudit.org	Alex Hoffman ssnap@rcplondon.ac.uk Dr Phil Jones, Arweinydd Clinigol Cymru ar gyfer Strôc a chynrychiolydd Cymru ar y grŵp llywio	Ydi (C, LI a Gog I)
Rhaglen archwilio achosion o dorri esgyrn wrth syrthio a thorri esgyrn brau, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> Cleifion preswyl sy'n syrthio Cronfa Ddata Genedlaethol ar Dorri Cluniau Cronfa Ddata Cydlynu Toriadau Esgyrn *	https://www.rcplondon.ac.uk/projects/falls-and-fragility-fracture-audit-programme-fffap-2014	<u>E-bost cyffredinol:</u> FFFAP@rcplondon.ac.uk <u>Cleifion preswyl sy'n syrthio</u> Naomi Vasilakis / Vivienne Burgon Falls@rcplondon.ac.uk <u>Cronfa Ddata Torri Cluniau</u> Vivienne Burgon NHFD@rcplondon.ac.uk Naomi Vasilakis FLSDB@rcplondon.ac.uk Dr Antony Johansen, Arweinydd Clinigol yr Archwiliad a chynrychiolydd Cymru ar y grŵp llywio	Ydi (C, LI a Gog I)
Archwiliad Cenedlaethol ar Ddementia *	www.nationalauditofdementia.org.uk	Chloe Hood nad@rcpsych.ac.uk chloe.hood@rcpsych.ac.uk	Ydi (C a LI)

Archwiliad Cenedlaethol Canser y Fron mewn Pobl Hŷn (NABCOP) *	https://www.nabcop.org.uk/	Ms Jibby Medina nabcop@rcseng.ac.uk jmedina@rcseng.ac.uk	Ydi (C a LI)
--	---	--	-----------------

Diwedd Oes	Hafan gwefan yr archwiliad	Prif gyswilt	Yn casglu data yn 2018/19
Archwiliad Cenedlaethol Gofal ar Ddiwedd Oes (NACEL) *	https://www.nhsbenchmarking.nhs.uk/news/nationalauditforcareattheendoflife	Jessica.walsh1@nhs.net	Ydi (C a LI)

Y Galon	Hafan gwefan yr archwiliad	Prif gyswilt	Yn casglu data yn 2018/19
Archwiliad Cenedlaethol Methiant y Galon *	https://www.ucl.ac.uk/nicor/audits/heartfailure	Akosua Donkor hf-nicor@ucl.ac.uk a.donkor@ucl.ac.uk	Ydi (C a LI)
Rheoli curiad y galon *	https://www.ucl.ac.uk/nicor/audits/cardiarrhythm	Akosua Donkor crm-nicor@ucl.ac.uk a.donkor@ucl.ac.uk	Ydi (DU)
Archwiliad Cenedlaethol Llawfeddygaeth Gardiaidd *	https://www.ucl.ac.uk/nicor/audits/adultcardiac	Anthony Bradley acs-nicor@ucl.ac.uk a.j.bradley@ucl.ac.uk	Ydi (DU)
Archwiliad Cenedlaethol Ymyriadau Coronaidd Sylfaenol (PCI) (Angioplasti Coronaidd)*	https://www.ucl.ac.uk/nicor/transparency/2014/pci	Kathleen Reinoga k.reinoga@ucl.ac.uk	Ydi (DU)
Archwiliad Cenedlaethol Clefyd Cynhenid y Galon * #	http://www.ucl.ac.uk/nicor/audits/congenital	Sarah Ajayi s.ajayi@ucl.ac.uk Tracy Whittaker t.whittaker@ucl.ac.uk	Ydi (DU)
Prosiect Archwiliad Cenedlaethol Ischaemia Myocardaidd (MINAP) *	www.ucl.ac.uk/nicor/audits/minap	Kathleen Reinoga k.reinoga@ucl.ac.uk Gethin Ellis – cynrychiolydd Cymru ar y grŵp llywio Gethin.ellis@wales.nhs.uk	Ydi (C, LI a Gog I)

Archwiliad Cenedlaethol Y Gofrestrfa Fasgwlaidd (gan gynnwys archwiliad endarterectomi carotid) *+	www.vsqip.org.uk	Sam Waton nvr@rcseng.ac.uk swaton@rcseng.ac.uk	Ydi (DU)
Archwiliad Adsefydlu Cardiaidd	http://www.cardiacrehabilitation.org.uk/	corinna.petre@york.ac.uk	Ydi (C, LI a Gog I)

Canser	Hafan gwefan yr archwiliad	Prif gyswllt	Yn casglu data yn 2018/19
Archwiliad Cenedlaethol Canser yr Ysgyfaint *	https://www.rcplondon.ac.uk/projects/national-lung-cancer-audit	Rosie Dickinson nlca@rcplondon.ac.uk Rosie.Dickinson@rcplondon.ac.uk Neil McAndrew - cynrychiolydd Cymru ar y grŵp llywio Neil.McAndrew@wales.nhs.uk	Ydi DU a Gweriniaeth I
Archwiliad Cenedlaethol Canser y Prostad *	www.npca.org.uk	Dr Julie Nossiter npca@rcseng.ac.uk	Ydi (C a LI)
Archwiliad Cenedlaethol Canser Oesoffagaidd-gastrig (NOGCA) (gan gynnwys yr Archwiliad Cenedlaethol Canser Oesoffagaidd-gastrig a Chanser y Coluddyn blaenorol) *	www.hscic.gov.uk/og	Julie Michalowski og.cancer@nhs.net julie.michalowski@nhs.net Tom Crosby - cynrychiolydd Cymru ar y grŵp llywio Tom.Crosby@wales.nhs.uk	Ydi (C a LI)

Iechyd Menywod a Phlant	Hafan gwefan yr archwiliad	Prif gyswllt	Yn casglu data yn 2018/19
Gofal Dwys Pediatrig (PICaNet) * #	www.picanet.org.uk	Liz Draper msn@leicester.ac.uk Sophie Butler S.Butler1@leeds.ac.uk Jodie Singh j.a.singh@leeds.ac.uk picanet@leeds.ac.uk	Ydi (DU)
Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Cenedlaethol * #	www.rcpch.ac.uk/nnap	Calvin Down Calvin.down@rcpch.ac.uk Roshan Adappa - cynrychiolydd Cymru ar y bwrdd prosiect Roshan.Adappa@wales.nhs.uk	Ydi (C a LI)
Archwiliad Cenedlaethol Mamolaeth ac Amenedigol * #	http://www.maternityaudit.org.uk/pages/home	Hannah Knight hknight@rcog.org.uk	Ydi (C, LI a'r Alban)

Arall	Hafan gwefan yr archwiliad	Prif gyswllt	Yn casglu data yn 2018/19
Archwiliad Clinigol Cenedlaethol Epilepsi 12 Plant a Phobl Ifanc * #	https://www.rcpch.ac.uk/work-we-do/quality-improvement-patient-safety/epilepsy12-audit	Calvin Down Calvin.down@rcpch.ac.uk	I'W GADARNHAU
Archwiliad Clinigol Cenedlaethol Seicosis *	I'W GADARNHAU - bydd yn cael ei gynnwys ar y wefan ganlynol http://www.rcpsych.ac.uk/workinpsychiatry/qualityimprovement/nationalclinicalaudits.aspx	Dr Alan Quirk Alan.Quirk@rcpsych.ac.uk	I'W GADARNHAU

(* dynodi Archwiliadau NCAPOP)

(# dynodi adroddiadau sy'n debyg o gynnwys gwybodaeth am blant a/neu wasanaethau mamolaeth)

Atodiad B

Rhaglen Adolygu Canlyniadau Clinigol

Cynlluniwyd y Rhaglen Adolygu Canlyniadau Clinigol i helpu i asesu ansawdd gofal iechyd ac i ysgogi gwelliannau o ran diogelwch ac effeithiolrwydd drwy ddysgu oddi wrth ddigwyddiadau andwyol a data perthnasol eraill. Mae hefyd yn ceisio ategu a chyfrannu at waith asiantaethau eraill fel NICE, y Colegau Brenhinol ac astudiaethau ymchwil academaidd a fydd yn ategu newidiadau i wella gofal iechyd y GIG.

Heb ddata o ansawdd uchel, mae'n annhebygol y byddwn yn gweld gwelliannau mewn gofal clinigol. Mae archwiliadau clinigol cenedlaethol ac adolygiadau canlyniadau yn canolbwyntio ar feysydd gofal iechyd sy'n cael eu gweld fel rhai pwysig, lle mae materion yn achosi pryder yn aml a lle bo canlyniadau cenedlaethol yn cael eu hystyried yn hanfodol i wella arferion a safonau.

Gyda'r gallu i fesur yn erbyn safonau cydnabyddedig a chymharu gwasanaethau ar lefel leol, rhanbarthol neu genedlaethol, mae archwiliadau clinigol ac adolygiadau canlyniadau yn arfau pwerus iawn i asesu ansawdd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu. O'u defnyddio fel rhan o'r cylch ehangach i wella ansawdd, maent yn darparu system gadarn ar gyfer ysgogi newidiadau i wasanaethau a gwella canlyniadau i gleifion, ond mae cyfranogiad llawn a phenderfyniad i ddysgu o'r canfyddiadau yn hanfodol.

Dyfarwyd contractau darparu gwasanaethau'r rhaglenni hyn i'r cyflenwyr canlynol (dolenni i hafan eu gwefannau):

Rhaglen Adolygu Canlyniadau Clinigol	Hafan gwefan yr archwiliad	Prif gyswllt	Yn casglu data yn 2018/19
Rhaglen feddygol a llawfeddygol *	http://www.ncepod.org.uk/ - Canser Ymhlith Plant a Phobl Ifanc <i>Adolygu ansawdd y gofal a ddarparwyd i gleifion dan 25 a fu farw / a gafodd eu derbyn yn ddirybudd i ofal critigol o fewn 30 diwrnod i dderbyn therapi gwrth-ganser systematig</i> - Methiant y galon <i>Adolygu ansawdd y gofal a ddarparwyd i gleifion 16 a throsodd, ar gyfer cleifion a dderbyniwyd i'r ysbyty yn dioddef o fethiant y galon</i> - Diabetes Amdriniaethol	Dr Marisa Mason mmason@ncepod.org.uk	Ydi (C, LI)

	<p>Adolygu prosesau gofal amdriniaethol cleifion â diabetes ar draws holl lwybr y claf.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Emboledd ar yr ysgyfaint <i>Adolygu'r broses ofal ar gyfer cleifion sydd wedi cael diagnosis o emboledd ar yr ysgyfaint.</i> - Rhwystr yn y Coluddyn <i>Adolygu'r broses ofal ar gyfer cleifion sydd wedi cael diagnosis o rwystr yn y coluddyn.</i> - Cymorth Anadlu Hirdymor <i>Adolygu'r broses ofal ar gyfer cleifion sydd wedi cael diagnosis bod angen cymorth anadlu hirdymor.</i> 		
<p>Rhaglen iechyd meddwl</p> <p>*</p>	<p>http://research.bmh.manchester.ac.uk/cmhs/research/centreforsuicideprevention/nci</p> <ul style="list-style-type: none"> - Ymchwiliad Cyfrinachol Cenedlaethol i Hunanladdiad a Llofruddiaeth: Adroddiad - Adolygiad asesiad risg hunanladdiad (2018) - Swyddogaeth gwasanaethau camddefnyddio sylweddau (2018) 	<p>Dr Pauline Turnbull</p> <p>pauline.turnbull@manchester.ac.uk</p>	<p>Ydi</p> <p>(C, LI)</p>
<p>Rhaglen Adolygu Canlyniadau Clinigol Iechyd Plant</p> <p>*#</p>	<p>http://www.ncepod.org.uk/</p> <ul style="list-style-type: none"> - Astudiaeth Iechyd Meddwl Pobl Ifanc <i>Adolygiad o Iechyd Meddwl Pobl Ifanc, gan ganolbwyntio ar hunan niwed.</i> 	<p>Kirsty MacLean Steel</p> <p>kmacleansteel@ncepod.org.uk</p>	<p>Ydi</p> <p>(C, LI)</p>
<p>Rhaglen Adolygu Canlyniadau Clinigol Mamau, y Newydd-anedig a Babanod</p> <p>*#</p>	<p>https://www.npeu.ox.ac.uk/mbrace-uk</p>	<p>Yr Athro Jenny Kurinczuk</p> <p>jenny.kurinczuk@npeu.ox.ac.uk</p>	<p>Ydi</p> <p>(DU)</p>